

ADRAN YSTADAU

TIR YN Y MAES AWYR, Y RHWS

- LLEOLIAD:** Tir yn y Maes Awyr, Y Rhws, fel sydd wedi ei amlinellu'n goch yn y cynllun sydd wedi ei atodi at ddibenion adnabod yn unig.
- ARWYNEBEDD:** Tua 15.2 ha (37.5 erw).
- CYFNOD GOSOD:** 1 Ebrill 2019 – 31 Ionawr 2020.
- FFI TRWYDDED:** Bydd y tendrwr llwyddiannus yn talu ffi i'r Cyngor am hawliau pori neu ladd gwair am y cyfnod uchod. Bydd y ffi yn cael ei cael ei thalu'n llawn ymlaen llaw.
- CYTUNDEB:** Bydd y tendrwr llwyddiannus yn mynd i gytundeb cyfreithiol priodol gyda Chyngor Bro Morgannwg er mwyn unioni'r feddiannaeth.
- GWRTH-STOC:** Os yw'r tir i'w ddefnyddio i'w bori bydd y trwyddedai'n gyfrifol am godi a chynnal pob ffens a chlwyd mewn cyflwr gwrth-stoc drwy gydol cyfnod y drwydded fel na all unrhyw stoc dresmasu neu ddianc i dir neu briffordd gyfagos.
- Bydd y trwyddedai'n cymryd y tir yn ei gyflwr presennol.
- DIOGELWCH:** Bydd y trwyddedai'n sicrhau diogelwch y tir ar bob adeg yn ystod Cyfnod y Drwydded yn erbyn ei ddefnydd (boed gydag awdurdod neu hebdo) gan deithwyr crwydrol, gwersyllwyr anghyfreithlon neu drydydd partïon eraill.
- DULL GOSOD:** Mae angen i ddarpar dendrwy'r ddilyn y weithdrefn a nodir yn y dogfennau tendro cysylltiedig. Tynnir sylw penodol at yr "Amodau Cyflwyno Cynigion".
- GWELD Y TIR:** Gellir mynd i weld y tir ar unrhyw adeg cyn dyddiad cau'r broses dendro. Bydd unrhyw bersonau sy'n edrych dros y tir yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain yn llwyr ac ni all, ac ni wnaiff, Cyngor Bro Morgannwg dderbyn unrhyw atebolrwydd dros unrhyw golled neu niwed a achosir mewn unrhyw ffordd.

AMODAU:

Cyn rhoi trwydded bydd y Trwyddedwr yn archwilio'r stoc sydd i'w osod ar y tir. Rhaid i'r trwyddedai hefyd ddangos copi o flaen llaw o'r ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer y da byw, h.y. copi o basbortau buchol. Rhaid cadw at weithdrefnau symud da byw (gan gynnwys cael Rhif Daliad os oes angen i gadw'r gwair) a rhaid i'r da byw i gyd gael eu nodi'n unol â Deddfwriaeth Iechyd Anifeiliaid.

DIWEDDU:

Mae'r Trwyddedwr yn cadw'r hawl i ddod a'r Drwydded i ben heb rybudd os bydd unrhyw un neu rai o'r telerau ac amodau'n cael eu torri neu os bydd angen gwneud hynny er mwyn datblygiad.

AROLYGU:

Mae gan y Trwyddedwr neu Goleg Caerdydd a'r Fro neu drydydd parti arall hawl i gynnal arolygon ar unrhyw adeg ar y tir.